19 Ebrill 2023

**'Dylan Goes Digital'**
**Prosiect Ieithoedd (Yr Adran Saesneg)**
**Canolfan Dylan Thomas, 26-28 Ebrill 2023**

Annwyl Rhiant/ Gwarcheidwad,

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu am gyfle gwych i'ch plentyn fod yn rhan o brosiect cyffrous gyda'r adran Saesneg fel rhan o brosiect ieithoedd sy'n ffocysu ar fywyd a gwaith y llenor byd-enwog, Dylan Thomas.

Ffocws y prosiect yw creu wefan 'Dylan goes Digital' yn cyflwyno gwybodaeth am yr enwog Dylan Thomas. Bwriad y prosiect yw cyflwyno bywyd a gwaith Dylan Thomas i ddisgyblion iau. Fel rhan o'r gwaith yma, disgwylir i bawb ym mlwyddyn 8 ymweld â'r ganolfan Dylan Thomas yn Abertawe yn ystod yr wythnos 26-28ed Ebrill.

Bydd trefniadau fel y ganlyn:

| Diwrnod | Dosbarth |
|---|---|
| Mercher, 26 Ebrill | Gwersi 1 a 2: 8R Gwersi 3 a 4: 8Y |
| Iau, 27 Ebrill | Gwersi 1 a 2: 8A Gwersi 3 a 4: 8W |
| Gwener, 28 Ebrill | Gwersi 1 a 2: 8E Gwersi 3 a 4: 8B |
| *Bydd dosbarth 8T yn cael eu rhannu ymhlith y dosbarthiadau eraill | |

Bydd cludiant i'r ganolfan (ac i Barc Cwmdonkin) ac yn ôl i'r ysgol yn cael ei drefnu, ond bydd angen i ddosbarthiadau sydd yn teithio rhwng 9yb ac 11yb ddod a byrbryd ar gyfer amser egwyl gyda hwy, gan ni fyddwn yn yr ysgol yn ystod egwyl. **Disgwylir i bawb wisgo gwisg ysgol.**

Gofynnwn yn garedig am **gyfraniad o £5** er mwyn cynnal costau trafnidiaeth i brif swyddfa'r ysgol. A fyddech cystal â llenwi'r ffurflen feddygol a'i dychwelyd, ynghyd â'r arian (neu siec yn daladwy i Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe) cyn gynted ag y bo modd?

Diolch am eich cydweithrediad a chysylltwch os oes gennych unrhyw gwestiynau,

Mr Chris Shaw (Pennaeth Cynorthwyol)

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
swyddfabryntawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies